



CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

# Bwletin Chwarterol

Hydref 2024, Rhifyn 8

Mae CEDAR wedi ymrwmo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

## YN Y RHIFYN HWN

### Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau  
diweddar gan y  
tîm

### Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch  
pa brosiectau  
sydd wedi camu  
ymlaen yn  
CEDAR.

### Adran arddangos

Dysgwch am  
brofiad Dr  
Christina  
Lloydwin o Gwrs  
Crwsibl Cymru.

### Sbotolau Staff

Clywch gan Dr  
Elinor  
MacFarlane,  
Gwyddonydd  
Gwerthuso  
Clinigol yn  
CEDAR.

## Imani Tariq

Hoffai tîm CEDAR dalu teyrnged i'n ffrind a'n cydweithiwr Imani Tariq, a fu farw yn anffodus yn 43 oed ym mis Awst eleni. Ymunodd Imani â'n hadran yn 2020 fel Gweinyddwr yn CEDAR a chyn hynny bu'n gweithio ym maes Hematoleg. Roedd hi'n rhan allweddol o'r tîm gweinyddol, a chwaraeodd ran mewn llawer o brosiectau, ac roedd pawb yn ei hoffi'n fawr. Bydd tîm CEDAR a phawb oedd yn adnabod Imani yn ei cholli'n fawr. Mae ein meddyliau a'n dymuniadau gorau gyda'i phlant, gŵr, chwaer yng nghyfraith a'r teulu ehangach.



## Newyddion CEDAR

- Llongyfarchiadau i Katherine, Nia, Ayesha, Kathleen a Susan am y cyhoeddiadau diweddar canlynol:
  - [Application of the PAPERS Grading Criteria Within a Rapid Evidence Review to Determine the Psychometric and Pragmatic Properties of Patient Empowerment Tools](#)
  - [Ventilator-tube holder for mobilising patients with a tracheostomy: A pilot usability study \(TrachVest\)](#)
  - [A long way from Frome: improving connections between patients, local services and communities to reduce emergency admissions](#)
- Croeso cynnes iawn i Dr Elinor MacFarlane sydd wedi ymuno â CEDAR yn ddiweddar fel Gwyddonydd Gwerthuso Clinigol.
- Llongyfarchiadau i Agatha-Grove Hills ar ei phenodiad fel Gwyddonydd Gwerthuso yn CEDAR, yn dilyn cyfnod adleoli o Radiofferylliaeth Caerdydd a'r Fro.
- Mae CEDAR yn falch iawn o gyhoeddi bod y [prosiect Offer Grymuso Cleifion \(PET\)](#) wedi cael cymeradwyaeth foesebol yn ddiweddar ac wedi dechrau recriwtio cleifion a staff o ffisiotherapi a phodiaterg. Bydd cyfranogwyr yn profi gwahanol offer ac yn rhoi eu barn arnynt.
- Mae CEDAR wedi cael cymeradwyaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) ar gyfer y prosiect '[Canfod y rhwystrau a'r hwyluswyr ar gyfer gweithredu Dysgu Peiranyddol i gyflawni Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth yng Nghymru](#)'.
- Mae [astudiaeth SPIN-VR](#) wedi cofrestru ei glaf cyntaf yn swyddogol. Nod yr ymchwil hwn yw asesu'r defnydd o ffisiotherapi realiti rhithwir yn y cartref ar gyfer trin osteoarthritis y pen-glin.

# UCHAFBWyNTIAU'R PROSIECT

## Canllawiau Technolegau Meddygol NICE ar Kurin Lock

Mae CEDAR yn falch o fod wedi cyfrannu at ddatblygu canllawiau technoleg feddygol NICE ar Kurin Lock. Mae Kurin Lock yn ddyfais sydd â'r nod o leihau halogiad mewn samplau meithriniad gwaed trwy ynysu'r gwaed a allai gynnwys microbau o'r croen ar y safle lle mae gwaed yn cael ei dynnu. Mae canllawiau NICE yn awgrymu y gellir defnyddio Kurin Lock yn y GIG i leihau halogiad wrth gasglu meithriniad gwaed mewn adrannau achosion brys gyda chyfraddau halogi meithriniad gwaed uchel tra bod mwy o dystiolaeth yn cael ei chynhyrchu. Cyhoeddwyd yr argymhellion llawn ym mis Ebrill 2024 ac maent i'w gweld yma: [Canllawiau Technolegau Meddygol NICE ar gyfer Kurin Lock](#).

## Gwerthusiad Economaidd o Endosgopau IQ - Cam 3

Mae CEDAR yn cynnal gwerthusiad economaidd annibynnol o'r Endosgop IQ, dyfais untro, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Wedi'i ariannu gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r prosiect yn adeiladu ar Gam 2, lle bu CEDAR yn gwerthuso cynaliadwyedd, cost-effeithiolrwydd, ac effaith amgylcheddol endosgopau untro yn erbyn endosgopau y gellir eu haildefnyddio. Yng Ngham 3, bydd y ffocws ar fynd i'r afael â'r meysydd clinigol allweddol a nodwyd yng ngham 2 y prosiect, lle gallai'r ddyfais hwyluso diagnosis cyflymach ac arosiadau byrrach yn yr ysbyty. Drwy gydol y prosiect, byddwn yn gweithio'n agos gyda Miss Jennifer Waterman, Cymrawd Ymchwil Clinigol y Colon a'r Rhefr yn y Bwrdd Iechyd. Bydd yn cynnwys archwiliadau cleifion ôl-weithredol ac archwiliadau darpar gleifion, ynghyd â modelu costau, i asesu effaith ariannol a chlinigol bosibl o ganlyniad i fabwysiadu'r Endosgop IQ. Nod y gwerthusiad yw dilysu canfyddiadau Cam 2 a dysgu mwy am sut y gallai'r ddyfais wella gofal cleifion a lleihau'r defnydd o adnoddau gofal iechyd.



## Arddangosfa Tîm - Cwrs Crwsibl Cymru

### **Mae Dr Christina Lloydwin, Uwch Ymchwilydd, yn trafod ei phrofiad o gwrs Crwsibl Cymru, a fynychodd yn gynharach yn y flwyddyn:**

Roeddwn yn ddiolchgar iawn o gael fy newis i fynychu cwrs Crwsibl Cymru eleni, ar ôl i gydweithwyr eraill o CEDAR, Dr Susan Peirce, Dr Judith White a Megan Dale, fod yn bresennol yn y blynyddoedd blaenorol. Mae Crwsibl Cymru yn rhaglen adnabyddus ar gyfer arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru i ddatblygu sgiliau personol, proffesiynol a sgiliau arwain. Fe'i cynhelir dros dair sesiwn breswyl, lle mae cyfleoedd i gwrdd ag ymchwilwyr eraill o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau sydd ar ddechrau neu yng nghanol eu gyrfa a chael mewnwelediad gan arbenigwyr yn y dirwedd ymchwil yng Nghymru ar sut y gallem ddatblygu ein hymchwil a gwneud gwahaniaeth yn y byd. Mae fy uchafbwyntiau o'r profiad yn cynnwys clywed gan:

- Yr Athro Wendy Larner, Llywydd ac Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd, am ddyfodol y Prifysgolion
- Dr Ian Lewis, am ymgyrch fan hufen iâ creadigol gyda Tenovus a chyllid gwyddoniaeth Llywodraeth y DU
- Athro Yamni Nigam ar ei rhaglen waith Love a Maggot.

Ond yn bwysicaf oll, yr hyn y byddaf yn ei gymryd o'r cwrs yw rhwydwaith newydd o ymchwilwyr gwych yng Nghymru ac egni a hyder newydd i greu fy llwybr fy hun mewn ymchwil.



Carfan cwrs Crwsibl Cymru 2024.

## SBOTOLAU STAFF

**Yn y rhifyn hwn o Sbotolau Staff, rydym yn siarad â'r Gwyddonydd Gwerthuso Clinigol, Dr Elinor MacFarlane:**



### **Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch rôl:**

Ymunais â CEDAR ar ddechrau mis Medi, ar ôl i mi raddio gyda doethuriaeth yn gynharach yr haf hwn. Mae fy nghefndir mewn ymchwil dulliau cymysg, ar ôl gweithio ar gyflwyno'r broses o gofnodi digwyddiadau i wasanaethau gofal llygaid sylfaenol yng Nghymru a gwerthuso diogelwch cleifion. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at barhau i weithio ar brosiectau dylanwadol yn CEDAR.

### **Pa 3 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR?**

Croesawgar, Aml-ddoniog ac Unigryw.

### **Beth yw eich hoff ran o'ch swydd?**

Hyd yn hyn, mae wedi bod yn cwrdd ag aelodau cyfeillgar o'r tîm o ystod o wahanol gefndiroedd a setlo i mewn i brosiectau newydd a chyffrous.

### **Dewiswch archbŵer:**

Telegludiad, gan fy mod wrth fy modd yn teithio, ond yn bendant nid wyf yn hoffi hedfan am amser hir!

### **Beth sy'n ffaith amdanoch chi y byddai pobl yn synnu ohoni?**

Rwy'n cofio pob breuddwyd a gefais erioed! Dwi hefyd yn perthyn i'r canwr Cymreig Syr Tom Jones.